CYNLLUN BUSNES 2021-22

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cynnwys

1. Cymwysterau Cymru **1**
1.1 Cyflwyniad **1**
1.2 Ein diben **2**

2. Crynodeb **3**

3. Blaenoriaethau gweithredol 2021-22 ..... **5**
3.1 Blaenoriaeth 1: Adolygu 5
3.2 Blaenoriaeth 2: Diwygio 7
3.3 Blaenoriaeth 3: Rheoleiddio 9
3.4 Blaenoriaeth 4: Adnoddau – gallu corfforaethol 11
3.5 Blaenoriaeth 5: Cyrhaeddiad – cyfathrebu ac ymgysylltu 13

4. Cyllid a gwariant arfaethedig 2021-22 ..... **14**

1. Cymwysterau Cymru

1.1. Cyflwyniad

Mae Cymwysterau Cymru yn rheoleiddio cyrff dyfarnu cydnabyddedig sy'n cynnig cymwysterau yng Nghymru. Rydym yn gorff annibynnol sy'n canolbwyntio ar gymwysterau a ariennir gan arian cyhoeddus, gan gynnwys cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch, a chymwysterau galwedigaethol. Rydym yn gweithio gydag eraill i adolygu a diwygio cymwysterau.

Nid yw graddau prifysgol yn rhan o'n gwaith, ond rydym yn gweithio gyda phrifysgolion a cholegau i sicrhau eu bod nhw'n deall cymwysterau fel y gall dysgwyr symud ymlaen at addysg uwch. Rydym eisiau i gymwysterau fod cystal â phosibl ar gyfer dysgwyr, athrawon a chyflogwyr, gan helpu pobl i addasu mewn byd sy'n newid yn gyflym. Rydym yn gweithio gyda chyrff dyfarnu i ymestyn argaeledd cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg.

2021-22 yw ein chweched flwyddyn ariannol lawn o weithredu. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd effaith y pandemig COVID-19 ar draws y system addysg gyfan. Mae hyn wedi ei gwneud yn ofynnol i Cymwysterau Cymru a'r rheoleiddwyr eraill ledled y DU archwilio a mabwysiadu dulliau o ddyfarnu cymwysterau na welwyd o'r blaen. Trwy gydol y cyfnod anodd hwn, ein blaenoriaeth fu cefnogi dysgwyr i dderbyn graddau sy'n caniatáu iddynt symud ymlaen i gyflogaeth neu i gam nesaf eu haddysg. Rydym yn parhau i fod yn hyblyg yn ein dull o weithredu fel y gallwn ymateb i unrhyw heriau newydd. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y graddau a ddyfernir yn 2021 yn Raddau a Bennir gan Ganolfannau, a bydd cwblhau'r trefniadau rheoleiddio i wneud i hyn ddigwydd yn rhan hanfodol o'n gwaith yn gynnar yn y flwyddyn.

Y llynedd, gwnaethom wrando ar adborth a ddywedodd fod angen i ni wella sut rydym yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â dysgwyr, rhieni, athrawon a rhanddeiliaid eraill ar draws y system addysg. Mae Cynllun Busnes eleni yn dangos y flaenoriaeth yr ydym wedi'i rhoi i gryfhau'r ddeialog ddwyffordd hon. Ein nod yw creu ymgysylltiad gwirioneddol a pharhaus â'r rhai y mae ein syniadau a'n cynlluniau yn effeithio arnynt. Bydd hyn yn berthnasol i'r broses ddyfarnu ar gyfer 2021 a 2022, ac i'r diwygiadau a wnawn i gymwysterau yn y tymor hwy. Mae gennym gynlluniau ar waith i ehangu'r maes hwn o'n gwaith.

Ni wnaethom adolygu ein dogfennau strategaeth y llynedd ac ar hyn o bryd mae ein dull wedi'i nodi yn y dogfennau a ganlyn:

Strategaeth Cymwysterau Cymru
Cynllun Strategol Cymwysterau Cyffredinol
Strategaeth Cymwysterau Galwedigaethol
Cynllun Strategol ar gyfer Gallu Corfforaethol
Dewis i Bawb (ein Strategaeth Cymwysterau Cyfrwng Cymraeg newydd, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020)

Fodd bynnag, eleni byddwn yn dwyn ynghyd ein hymagwedd strategol at gymwysterau cyffredinol a galwedigaethol, a byddwn yn edrych ar y defnydd o dechnoleg ddigidol a hyrwyddo'r Gymraeg.

Mae'r system addysg gyfan yng Nghymru wedi delio â heriau digynsail eleni. Mae ein cynllun ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cydbwyso cyflawni'r hyn sydd ei angen nawr wrth gadw golwg ar anghenion tymor hwy cenedlaethau'r dyfodol.

Mae gennym rai penderfyniadau pwysig i'w gwneud yn y flwyddyn i ddod, mewn perthynas â threfniadau asesu ar gyfer y cymwysterau cyfredol a diwygio cymwysterau i gefnogi'r cwricwlwm newydd i Gymru. Bydd y rhain yn cael eu llywio gan ein gweithgareddau ymchwil parhaus. Mae ymchwil yn parhau i fod yn flaenoriaeth, gan ddefnyddio ein tîm mewnol a darparwyr allanol. Eleni bydd rhai o'n prosiectau ymchwil presennol yn dod i ben a byddwn yn dechrau gweithio mewn meysydd newydd. Byddwn yn cael ein llywio gan y data a gasglwn ac a ddadansoddwn, a byddwn yn parhau i gyhoeddi ein hystadegau swyddogol.

Mae'r Cynllun Busnes hwn ar gyfer 2021-22 yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol ac mae wedi'i sefydlu o fewn cyd-destun y dirwedd gymwysterau bresennol a'n gwaith parhaus. Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u cymeradwyo gan ein Bwrdd, gan gydnabod y byddwn yn ymateb i anghenion dysgwyr ac y gall ein blaenoriaethau newid yn ystod y flwyddyn os bydd angen.

Y llynedd, buom yn gweithio o bell yn llwyddiannus am y cyfnod cyfan; eleni rydym yn gobeithio ailagor ein swyddfa ac archwilio ffyrdd hybrid o weithio. Llinell sylfaen yw'r Cynllun Busnes hwn, ac mae'r cynllunio wedi bod yn seiliedig ar niferoedd staff llawn yn gweithio hyd eithaf eu gallu. Yn yr un modd â'r llynedd, bydd y cynllun yn cael ei adolygu'n rheolaidd er mwyn ymateb i newidiadau yn ein gallu, gwaith ychwanegol angenrheidiol ac amseru priodol rhai o'n gweithgareddau arfaethedig.

1.2. Ein diben

Fel y rheoleiddiwr annibynnol, mae gennym ddau brif nod:

- Sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn effeithiol ar gyfer diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru; ac
- Ennyn hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru.

Mae hyn yn golygu bod y dysgwr yn ganolog i'n gweithgarwch.

Mae gennym hefyd gyfrifoldeb i edrych ar y system gymwysterau yn ei chyfanrwydd er mwyn sicrhau ei bod yn gweithio er budd dysgwyr, a gweithredu neu gynghori eraill i wneud yr un fath, os oes angen. Rhan o'n gwaith yw sicrhau bod cymwysterau yn y system yn cael eu gwerthfawrogi. Mae gennym bwerau a dyletswyddau i reoleiddio cyrff dyfarnu a gallwn ymyrryd mewn ffyrdd cadarnhaol er mwyn sicrhau gwelliannau i gymwysterau neu'r system gymwysterau.

Rydym yn diogelu gwerth cymwysterau, gan oruchwylio bod cymwysterau'n cael eu dyfarnu'n deg a'u hadolygu a'u datblygu wrth i anghenion dysgwyr newid. Fel y rheoleiddiwr cymwysterau annibynnol, rydym yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar faterion perthnasol. Rydym hefyd yn ystyried anghenion cyflogwyr, y sector addysg uwch a'r proffesiynau.

Mae ein rôl yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; mae ei phwrpas a'i gofynion yn cyd-fynd â'r ffordd rydym yn gweithio, gan fod addysg o reidrwydd yn gofyn am ystyriaeth hirdymor. Rydym hefyd yn gweithio ar y cyd oherwydd dim ond un rhan o'r system addysg gyflawn yng Nghymru ydym ni. Rydym wedi gosod amcanion gwirfoddol i'n hunain i gefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a gwnaethom adrodd ar hyn yn ystod 2020-21.

2. Crynodeb

Mae'r Cynllun Busnes hwn yn ymdrin â'n chweched flwyddyn ariannol lawn o weithredu.

Mae addysg a'r system gymwysterau yn parhau i fod o ddiddordeb gwleidyddol a chyhoeddus mawr. Bydd ein cynllun 2021-22 yn cyflawni'r trefniadau asesu amgen ar gyfer cymwysterau yn haf 2021 fel y'u nodwyd gan y Gweinidog Addysg, ac ar yr un pryd rydym yn parhau i symud ymlaen â'n gwaith ar ddiwygio cymwysterau. Bydd ein cynllun yn arwain at well cyfathrebu â'r rhai y mae ein penderfyniadau'n effeithio arnynt, gyda mwy o ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol a gwelliannau i'n gwefan. Trwy gydol yr amser, byddwn yn parhau i gyflawni ein rôl statudol i reoleiddio a monitro'r system.

Mae Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) bellach yn gyfraith a byddwn yn parhau i ddatblygu ein rhaglen waith 'Cymwys ar gyfer y Dyfodol' i ddiwygio cymwysterau i ddysgwyr 14-16 oed. Byddwn yn ymateb i adborth ar ein hymgynghoriad ar yr ystod o gymwysterau ac yn cydweithredu â dysgwyr, athrawon ac eraill yn y system addysg i gytuno ar y cynnwys a'r trefniadau asesu ar gyfer y cymwysterau newydd. Wrth i ni wneud hynny, byddwn yn chwilio am gyfleoedd i arloesi, wrth alinio â'r cwricwlwm newydd. Byddwn hefyd yn casglu barn ac yn cynnal ymchwil i gytuno ar yr ystod lawn o gymwysterau sy'n ofynnol i gynnig dewis cydlynol a chynhwysol a diwallu anghenion pob dysgwr. Bydd angen gwahanol fathau o asesu ar wahanol bynciau. Byddwn yn defnyddio'r ddwy flynedd nesaf i ddatblygu ein meddwl ar gymwysterau yn y dyfodol a gwrando ar bob barn gyda meddwl agored wrth ystyried canfyddiadau ein hymchwil.

Byddwn yn monitro'r gwaith o gyflwyno'r trefniadau asesu amgen ar gyfer cymwysterau yn haf 2021, gan oruchwylio'r dull y cytunwyd arno ar gyfer dyfarnu cymwysterau cymeradwy, gan gynnwys cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch sy'n seiliedig ar Raddau a Bennir gan Ganolfannau a'r dull tair gwlad ar gyfer dyfarnu cymwysterau galwedigaethol. Byddwn yn gweithio gyda CBAC i ddarparu eglurder ar addasiadau ar gyfer dyfarnu cymwysterau yn 2022. Byddwn yn dechrau ystyried sut i fynd ati i osod a chynnal safonau ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Byddwn yn parhau i gyflwyno diwygiadau mewn cymwysterau galwedigaethol. Pan fyddwn yn gwneud newidiadau, y bwriad yw sicrhau gwell asesu, llwybrau cynnydd mwy eglur i ddysgwyr a ffocws clir ar yr hyn y mae cyflogwyr a chyrff sector yn dweud wrthym maen nhw ei eisiau. Yn y pen draw, mae hyn yn helpu i greu gweithlu sy'n addas i anghenion Cymru yn yr 21ain ganrif. Mae ein gwaith yn helpu dysgwyr i wella a datblygu sgiliau er mwyn cael swydd, ac felly gwella ffyniant a thwf economaidd cyffredinol.

Byddwn yn parhau â'n dull o reoli newid, gan weithio gydag ysgolion, colegau a darparwyr dysgu yn y gwaith i esbonio'r newidiadau a darparu cefnogaeth. Pan fyddwn yn comisiynu cyrff dyfarnu i ddatblygu cymwysterau newydd, byddwn yn gofyn iddynt sicrhau bod canolfannau wedi'u paratoi'n dda ar gyfer cyflwyno'r cymwysterau hynny.

Yn ystod 2021, byddwn yn comisiynu corff dyfarnu i ddatblygu Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru. Bydd y cymhwyster Lefel 3 newydd hwn yn disodli'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch bresennol ac, yn yr un modd, bydd yn cael ei gymryd ochr yn ochr â chymwysterau Lefel 3, gan gynnwys rhai Safon Uwch. Bydd yn rhoi cyfle i ddysgwyr arddangos eu sgiliau cyfannol wrth ymgymryd â phrosiectau sy'n adlewyrchu materion byd-eang cyfoes ac yn hyrwyddo dyfodol cynaliadwy.

Yn dilyn ein hadolygiadau sector cynnar, a arweiniodd at ddatblygu cyfres o gymwysterau, mae'r holl gymwysterau newydd ar gyfer Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant bellach yn cael eu haddysgu. Bydd y cymwysterau newydd cyntaf mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig yn cael eu haddysgu o fis Medi 2021. Mae'r dull newydd hwn o lunio cymwysterau yn darparu sylfaen gyffredin ar gyfer pob crefft, gyda dysgwyr yn cael eu hannog i symud ymlaen o'r cymhwyster Sylfaen i brentisiaethau lle byddant yn dod yn gwbl gymwysedig yn eu crefft.

Mewn ymateb i'n hadolygiad sector 'Digidol i'r Dyfodol', mae cymhwyster TGAU newydd mewn Technoleg Ddigidol ar gael i'w addysgu gyntaf o fis Medi 2021, gyda Safon Uwch i ddilyn yn 2022, i gefnogi datblygiad y sgiliau sydd eu hangen ym myd digidol heddiw.

Yn dilyn ein hadolygiadau o gymwysterau Sgiliau Hanfodol a'n hadolygiad 'Pwysigrwydd Peirianneg' o gymwysterau peirianneg, byddwn yn cyflawni'r camau y cytunwyd arnynt i wella cymwysterau yn y meysydd hyn.

Rydym newydd ddechrau ein hadolygiad sector, Teithio, Twristiaeth, Lletygarwch ac Arlwyo, a byddwn yn parhau i symud ymlaen â hyn yn 2021, gan dderbyn barn o bob rhan o'r sector. Rydym yn tynnu tuag at derfyn ein hadolygiad sector o gymwysterau mewn Chwaraeon a Gwasanaethau Cyhoeddus, y byddwn yn adrodd arnynt yn 2021, cyn dechrau'r ail o'r adolygiadau hyn ym maes Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid.

Y tu hwnt i Gymru, byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau ledled y DU. Ar wahân i'r cymwysterau a ddatblygwyd yn benodol i Gymru, mae mwyafrif y cymwysterau galwedigaethol yn cael eu cynnig ar hyd a lled y DU. Mae polisïau addysg a sgiliau yn Lloegr yn parhau i esblygu mewn cyfeiriadau gwahanol i rai Cymru. Rydym yn cadw llygad barcud ar argaeledd cymwysterau ac yn gweithio gyda chyrff dyfarnu i nodi cymwysterau y gellir eu defnyddio i lenwi unrhyw fylchau posibl, a nodi sut y gallwn ni eu helpu nhw i gynnig rhagor o gymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn sail i'n gwaith bydd rhaglen lawn o ymchwil, a chasglu a dadansoddi data i helpu i sicrhau ein bod yn gwneud penderfyniadau gwybodus sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Yn ystod y flwyddyn, rydym yn gobeithio galluogi ein staff i ddychwelyd i'n swyddfa yn ddiogel. Byddwn yn adeiladu ar ein diwylliant cynhwysol, gan gadw manteision gweithio mwy hyblyg. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar lesiant staff, ein hamcanion cydraddoldeb a'n heffaith amgylcheddol.

Byddwn yn croesawu aelodau newydd o'r Bwrdd a staff newydd, ac yn sicrhau ein bod yn cyflwyno sesiwn sefydlu effeithiol, ond o bell. Byddwn yn parhau i geisio effeithlonrwydd a gwelliannau yn y ffordd yr ydym yn gweithredu, a bydd hyn yn cynnwys gweithredu systemau meddalwedd AD a chyllid newydd.

3. Blaenoriaethau gweithredol 2021-22

Mae blaenoriaethau gweithredol 2021-22 yn adeiladu ar gynllun y llynedd. Mae yna bum blaenoriaeth weithredol ar gyfer 2021-22:

1. Adolygu
2. Diwygio
3. Rheoleiddio
4. Adnoddau – gallu corfforaethol
5. Cyrhaeddiad – cyfathrebu ac ymgysylltu

3.1. Blaenoriaeth 1: Adolygu

Ein blaenoriaeth yw gweithio'n effeithiol gyda'r holl system gymwysterau yng Nghymru.

Rydym yn edrych tuag allan, felly rydym yn ymgysylltu, yn cyfathrebu ac yn cydweithio er mwyn cryfhau ein dealltwriaeth a'n gallu i wella cymwysterau er mwyn diwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru yn well. Er mwyn gwneud hyn, rydym yn gwneud ymchwil, yn ymgysylltu â rhanddeiliaid fel ysgolion, colegau, prifysgolion a chyflogwyr, ac yn cael y newyddion diweddaraf am dirwedd polisi ehangach Cymru a rhannau eraill o'r DU. Rydym yn adolygu ac yn gwerthuso agweddau o'r system gymwysterau er mwyn cryfhau hyder y cyhoedd mewn cymwysterau. Wrth wneud y gwaith hwn, byddwn yn archwilio effaith y pandemig ar randdeiliaid a'r goblygiadau ar gyfer y dyfodol.

Yn 2021-22, byddwn yn:

Rheoli'r prosiect Cymwys ar gyfer y Dyfodol
Byddwn yn cyflawni Cam 3 ein prosiect, yn sicrhau arbenigwyr pwnc ac yn cynllunio'r cam nesaf, gan ddefnyddio technegau rheoli prosiect effeithiol i sicrhau y gellir cyflawni ein cyfraniad pwysig i'r cwricwlwm newydd i Gymru yn effeithiol ac yn effeithlon.

Pennu'r ystod o gymwysterau fydd yn cael eu cymryd yn 16 oed yn y dyfodol
Byddwn yn adolygu'r hyn a glywsom o'n hymgynghoriad diweddar ar yr ystod o bynciau a ddylai fod ar gael i gefnogi'r cwricwlwm newydd ac yn cyhoeddi ein penderfyniadau. Byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddechrau ystyried yr ystod o gymwysterau sy'n ofynnol i gyflawni cynnig cynhwysol a chydlynol sy'n diwallu anghenion pob dysgwr rhwng 14 ac 16 oed.

Datblygu egwyddorion dylunio ar gyfer cymwysterau TGAU y dyfodol
Byddwn yn datblygu ac yn ymgynghori ar nodau lefel uchel, maint a threfniadau graddio cymwysterau TGAU newydd. Byddwn hefyd yn dechrau ystyried y cynnwys a'r trefniadau asesu ar gyfer pynciau unigol, gan dynnu ar ymchwil ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Byddwn yn ystyried y trefniadau rheoleiddio sy'n ofynnol i gefnogi ein cynigion.

Sicrhau cymwysterau ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed
Byddwn yn ystyried ac yn penderfynu sut y gallwn ni ddefnyddio ein pwerau statudol yn fwyaf effeithiol i sicrhau'r ystod o gymwysterau yn y dyfodol er mwyn cefnogi'r cwricwlwm newydd. Byddwn hefyd yn adolygu ein dull o ddynodi cymwysterau cyn-16 fel rhai sy'n gymwys i gael cyllid cyhoeddus.

Parhau â'r adolygiad o'r sector Teithio, Twristiaeth, Lletygarwch ac Arlwyo
Byddwn yn parhau â'n hadolygiad sector, gan gwblhau adolygiadau rhyngwladol a thechnegol, a cheisio barn dysgwyr, cyflogwyr, darparwyr dysgu a rhanddeiliaid eraill trwy gyfweliadau ac arolygon ar-lein.

Adolygu argaeledd cymwysterau ar gyfer dysgwyr ôl-16 yn y dyfodol
Byddwn yn parhau i gyflawni ein gwaith arfaethedig i sicrhau ystod effeithiol o gymwysterau i ddysgwyr sy'n dilyn cyrsiau galwedigaethol a phrentisiaethau ôl-16. Byddwn yn cyhoeddi ein hadolygiad o gymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus ac yn dechrau gweithredu unrhyw gamau a nodwyd. Byddwn yn cychwyn ein hadolygiad o gymwysterau ar gyfer Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid.

Datblygu'r strategaeth i adolygu a diwygio cymwysterau yn y dyfodol
Byddwn yn adolygu ein cynlluniau strategol presennol ac yn datblygu syniadau ar flaenoriaethau a heriau'r dyfodol. Wrth wneud hynny, byddwn yn ystyried ein cynnydd yn erbyn ein strategaeth Gymraeg 'Dewis i Bawb' a'n llwyddiant wrth gynyddu'r ystod o gymwysterau sydd ar gael i'w hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Llywio blaengynllunio cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru
Byddwn yn parhau i gyflawni ein blaenoriaethau ymchwil i lywio ein ffordd o feddwl. Byddwn yn cwblhau ein prosiectau ymchwil ar brofiadau o asesu diarholiad o fewn cymwysterau TGAU diwygiedig. Byddwn yn datblygu dull o werthuso sut rydym yn diwygio cymwysterau. Byddwn yn parhau i wneud ymchwil er mwyn mesur a deall hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru. Er mwyn cefnogi ein gwaith ar ddiwygio cymwysterau ar gyfer dysgwyr 14-16 oed, byddwn yn cwblhau adolygiad o gyfranogiad athrawon mewn asesu mewn gwledydd eraill. Byddwn hefyd yn adolygu'r trefniadau asesu amgen a ddefnyddiwyd yn 2020 a 2021 gydag athrawon.

Datblygu dull i gefnogi ehangu'r defnydd o dechnolegau digidol mewn cymwysterau rheoledig yng Nghymru
Byddwn yn mynd ati i ddiwygio cymwysterau, gan ffafrio defnyddio asesiadau digidol lle bo hynny'n briodol ac yn fuddiol. Byddwn yn nodi'r cyfleoedd ar gyfer cynyddu'r defnydd o dechnoleg ddigidol mewn cymwysterau rheoledig a'r hyn sy'n rhwystro hynny.

3.2 Blaenoriaeth 2: Diwygio

Ein hymrwymiad ni yw adolygu'r cymwysterau sydd ar gael yng Nghymru a'r system gymwysterau er mwyn sicrhau eu bod nhw'n diwallu anghenion rhesymol dysgwyr ac yn hyrwyddo hyder cyhoeddus. Gall hyn arwain at newidiadau i gymwysterau neu at greu rhai newydd. Mae hyn yn rhan bwysig o'n gwaith a gall gael effaith fawr ar y cymwysterau a gynigir yng Nghymru.

Yn 2021-22, byddwn yn:

Dechrau datblygu meini prawf cymeradwyo ar gyfer cymwysterau newydd 'a wnaed ar gyfer Cymru'
Gan weithio'n agos gyda rhanddeiliaid allanol, byddwn yn dechrau datblygu cynigion ar gyfer y gofynion a fydd yn ffurfio sut y dylid cynllunio ac asesu cymwysterau newydd 'a wnaed ar gyfer Cymru'.

Comisiynu datblygiad cymhwyster Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru newydd
Byddwn yn comisiynu corff dyfarnu i ddatblygu'r cymhwyster newydd hwn a sefydlu rhaglen rheoli newid i helpu ysgolion a cholegau i reoli'r gwaith o'i gyflwyno'n effeithiol.

Parhau i ddarparu'r Prosiect Diwygio Digidol
Byddwn yn cymeradwyo'r cymwysterau UG / Safon Uwch newydd mewn Technoleg Ddigidol i gael eu haddysgu am y tro cyntaf yn 2022. Byddwn yn sefydlu rhaglen rheoli newid i gefnogi ysgolion a cholegau i gyflwyno'r cymhwyster hwn a'r TGAU mewn Technoleg Ddigidol a gymeradwywyd gennym y llynedd ar gyfer ei haddysgu gyntaf yn 2021.

Diweddu'r Prosiect Diwygio Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Byddwn yn cwblhau ein hadolygiad o'r polisi, a phrosesau a chanlyniadau'r prosiect hwn, i nodi unrhyw welliannau y gallwn eu gwneud i ddiwygiadau yn y dyfodol.

Parhau â'r Prosiect Diwygio Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig
Byddwn yn cymeradwyo'r cymwysterau Cynnydd a Phrentisaethau. Byddwn yn goruchwylio cyflwyno cymwysterau Sylfaen, Cynnydd a Phrentisiaethau, yn ogystal â chymwysterau TGAU a Safon Uwch yr Amgylchedd Adeiledig. Byddwn yn gweithio gyda'r cyrff dyfarnu i ddarparu a goruchwylio rhaglen reoli newid i sicrhau bod darparwyr addysg a chyflogwyr yn barod i gyflwyno'r cymwysterau newydd. Byddwn yn parhau i adolygu ein gwaith a nodi unrhyw wersi a ddysgwyd.

Gweithredu'r camau gweithredu o'r adolygiad o'r sector Peirianneg, Gweithgynhyrchu Uwch ac Ynni
Byddwn yn ymgysylltu â chyrff dyfarnu a rhanddeiliaid eraill i weithredu'r camau a nodwyd o'r adolygiad hwn.

Diwygio cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru
Byddwn yn ymgysylltu â chyrff dyfarnu i nodi unrhyw newidiadau y dylid eu gwneud i gryfhau egwyddorion dylunio'r cymwysterau. Yna byddwn yn gweithio gyda'r cyrff dyfarnu a'r darparwyr dysgu i brofi, cymeradwyo a gweithredu unrhyw newidiadau.

Parhau i reoli grantiau'n effeithiol
Byddwn yn rheoli'r Grantiau Cymorth Cymraeg i Oedolion, Cyfrwng Cymraeg a Diwygio Cymwysterau ac yn gwneud gwybodaeth yn fwy tryloyw – gan gynnwys hysbysu rhanddeiliaid o gymwysterau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg am y tro cyntaf.

3.3. Blaenoriaeth 3: Rheoleiddio

Rydym yn rheoleiddio cymwysterau sy'n cael eu datblygu a'u darparu gan y cyrff dyfarnu rydym yn eu cydnabod. Pan gaiff ei gydnabod, mae'n rhaid i gorff dyfarnu gydymffurfio â'r rheolau rydym yn eu gosod. Rydym yn monitro cydymffurfiaeth yn erbyn ein Hamodau Cydnabod Safonol ac yn defnyddio ein pwerau gorfodi a chosbi pan fydd cyrff dyfarnu yn methu â chydymffurfio. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn defnyddio ein pwerau gorfodi i sicrhau bod y system yn diwallu anghenion dysgwyr. Mewn ymateb i'r pandemig, byddwn yn parhau i reoli'r effaith ar ddysgwyr ac yn ystyried y goblygiadau y tu hwnt i 2022.

Yn 2021-22, byddwn yn:

Cynnal a pharhau i adolygu ein Fframwaith Rheoleiddio, dogfennau a dulliau gweithredu
Byddwn yn penderfynu sut yr ydym yn bwriadu defnyddio ein pwerau i 'ddewis' cymwysterau i'w cyfyngu a'u cymeradwyo, a sut y byddwn yn defnyddio ein pwerau i 'ddynodi' cymwysterau fel rhai sy'n gymwys i gael cyllid cyhoeddus. Byddwn yn parhau â'n proses adolygu polisi ac yn gwella ein cyfres o ddogfennau rheoleiddio. Byddwn yn adolygu ein polisi cymwysterau cyfrwng Cymraeg rheoleiddiol ac yn gwella'r wybodaeth sydd gennym am ddewisiadau iaith dysgwyr. Byddwn yn parhau i gynnal Asesiadau Effaith Integredig rheoleiddiol.

Rheoleiddio cyrff dyfarnu
Byddwn yn parhau i adolygu ceisiadau gan sefydliadau sydd eisiau bod yn gyrff dyfarnu cydnabyddedig, neu gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig sydd eisiau cydnabyddiaeth ychwanegol. Byddwn yn parhau i adolygu datganiadau cydymffurfio cyrff dyfarnu ac yn monitro meysydd lle nad oes cydymffurfiad. Byddwn yn canolbwyntio'n benodol ar hyfywedd cyrff dyfarnu yn dilyn effaith y pandemig ar refeniw. Byddwn yn parhau i gynnal cyfarfodydd diweddaru rheoleiddiol, monitro digwyddiadau a adroddwyd gan gyrff dyfarnu a rheoli cwynion am gyrff dyfarnu – gan gynnwys cwynion chwythu'r chwiban rheoleiddiol.

Dynodi cymwysterau
Byddwn yn ystyried ceisiadau gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig i ddynodi cymwysterau yn gymwys i dderbyn arian cyhoeddus. Byddwn yn parhau i wireddu ein rôl ar Grwpiau Llywio Partneriaid Darparu Prentisiaethau Llywodraeth Cymru.

Monitro cymwysterau
Byddwn yn monitro'r gwaith o weithredu trefniadau asesu amgen haf 2021 a chyfres arholiadau gaeaf 2021-22. Byddwn yn monitro datblygiad asesu ar gyfer cyfresi arholiadau yn y dyfodol, gweithredu a darparu cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru, a'r cymwysterau galwedigaethol cymeradwy newydd mewn Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, ac Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig.

Goruchwylio gosod a chynnal safonau priodol ar gyfer cymwysterau
Byddwn yn parhau i oruchwylio cynnal safonau priodol ar gyfer cymwysterau TGAU, Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau. Byddwn yn goruchwylio gosod safonau priodol ar gyfer y cymwysterau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant newydd. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rheoleiddwyr eraill o ran cynnal safonau ar gyfer cymwysterau tair gwlad.

Rheoli cronfa ddata QiW (Cymwysterau Cymru)
Byddwn yn parhau i gynnal data QiW ac yn gweithredu newidiadau i reoli dyddiadau terfyn cymwysterau. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid i gasglu adborth ac awgrymiadau am sut i wella system QiW yn barhaus.

Casglu data a chynhyrchu ystadegau
Byddwn yn casglu data am ddyfarniadau a cheisiadau am gymwysterau, ac yn cynhyrchu ystadegau swyddogol a dadansoddiad ystadegol yn unol â'n hamserlen a gyhoeddwyd. Wrth wneud hynny, byddwn yn rheoli newidiadau sy'n deillio o'r trefniadau asesu amgen yn 2021. Byddwn yn datblygu'r modd i gasglu mwy o ddata ar y Gymraeg i gefnogi ein strategaeth Dewis i Bawb.

Rheoli effaith Covid-19 ar gymwysterau
Byddwn yn goruchwylio cyflwyno ein trefniadau asesu amgen ar gyfer 2021 ar gyfer cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol, gan weithio'n agos gyda rheoleiddwyr eraill i sicrhau aliniad priodol ledled y DU. Byddwn yn adolygu proses ein Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi (EPRS) i gefnogi anghenion dysgwyr yn 2021. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y gwaith hwn.

Penderfynu ar y dull o asesu a rheoleiddio cymwysterau yn 2022 a'r blynyddoedd dilynol
Byddwn yn goruchwylio'r trefniadau dyfarnu ar gyfer 2022 (gan gynnwys addasiadau priodol i gymwysterau). Byddwn yn myfyrio ar effaith y trefniadau asesu amgen ar safonau ac yn ystyried ffordd ymlaen ar gyfer dyfarnu cymwysterau ar ôl 2022.

3.4. Blaenoriaeth 4: Adnoddau – gallu corfforaethol

Rydym yn gwybod bod meddu ar alluoedd corfforaethol cryf ac effeithiol yn gymorth i'n gallu i gyflawni a'i fod yn cyfoethogi ein henw da gyda rhanddeiliaid. Rydym yn ymdrechu i wneud penderfyniadau sy'n gytbwys ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Rydym yn gwrando ar randdeiliaid ac yn rhoi gwybodaeth eglur. Rydym yn ceisio parhau i ennyn ymddiriedaeth trwy reoli ein hadnoddau'n effeithiol ac yn wydn a thrwy ddefnyddio arferion corfforaethol sy'n gydsyniol. Byddwn yn parhau i reoli effaith y pandemig ar ein gweithlu ac yn ystyried ein ffyrdd o weithio yn y dyfodol.

Yn 2021-22, byddwn yn:

Darparu gwasanaethau corfforaethol sy'n helpu ac yn herio'r sefydliad i fod yn effeithlon ac effeithiol ac i gydymffurfio yn y meysydd canlynol:
• Llywodraethu Corfforaethol • Cyllid • Adnoddau Dynol • Caffael • Cyfleusterau • TG • Ymchwil ac Ystadegau

Cyhoeddi adroddiadau corfforaethol ar amser ac i safon uchel
Yr adroddiadau gaiff eu cynnwys fydd: • Cynllun Busnes a Chynllun Gweithredol 2021-22 • Cyfrifon Blynyddol 2020-21 • Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2020-21 • Adroddiad Cynllun Iaith Gymraeg 2020-21 • Adroddiad Blynyddol 2020-21

Cyflawni ein hamcanion Cydraddoldeb a Chenedlaethau'r Dyfodol
Byddwn yn parhau i gyflawni ein hamcanion Cydraddoldeb a Chenedlaethau'r Dyfodol drwy ein gwaith rheoleiddiol a chorfforaethol. Byddwn yn parhau i geisio sicrhau amrywiaeth yn y gweithlu ac ar y Bwrdd ac yn gwella sut rydym yn gweithredu fel sefydliad cynhwysol yn barhaus. Yn dilyn ein dyfarniad cyflogwr Chwarae Teg Aur, byddwn yn gweithio gyda Chwarae Teg i nodi a gweithredu cynllun gweithredu ar gyfer gwelliant pellach.

Cyflawni camau gweithredu ein Cynllun Iaith Gymraeg
Byddwn yn parhau i fonitro cyflawniadau yn erbyn ein Cynllun Iaith Gymraeg ac yn cyflawni camau gweithredu a nodwyd. Byddwn yn adolyguein ein Cynllun Iaith Gymraeg er mwyn sicrhau ein bod ni'n symud tuag at Safonau'r Gymraeg.

Cefnogi llesiant staff a rheoli ein heffaith amgylcheddol
Gan dybio y byddwn yn dychwelyd yn rhannol i'r swyddfa, byddwn yn gweithio tuag at gyflawni'r Wobr Safon Iechyd Corfforaethol Arian drwy ymgorffori diwylliant iechyd a llesiant cadarnhaol. Byddwn yn parhau i gynnig amgylchedd gwaith ac yn cefnogi diwylliant sy'n annog ffyrdd iach o fyw ymhlith staff a llesiant tymor hir. Byddwn yn gweithio tuag at gyflawni Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd. Fel rhan o'n gweithgarwch Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol, byddwn yn helpu staff i ddefnyddio eu diwrnod cytunedig blynyddol â thâl i ddarparu rhaglen o weithgareddau Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol.

Gweithio ar y cyd gyda sector cyhoeddus Cymru i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd
Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid ar hyd a lled y sector cyhoeddus i roi cymorth i'r system gymwysterau a manteisio ar gyfleoedd er mwyn sicrhau gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Eleni, byddwn yn gweithio gyda chyrff eraill a noddir gan Lywodraeth Cymru i barhau i gyflwyno'r rhaglen dysgu a datblygu i reolwyr ac arweinwyr, a byddwn yn parhau i roi cymorth TG i'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol a Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.

Cefnogi datblygu'r Bwrdd a'r gweithlu
Byddwn yn darparu sesiwn sefydlu effeithiol ar gyfer aelodau newydd ein Bwrdd ac yn adolygu pa mor effeithiol yr ydym wedi cefnogi gweithwyr newydd wrth iddynt weithio o bell. Byddwn yn adolygu opsiynau ar gyfer prynu meddalwedd papurau'r Bwrdd. Byddwn hefyd yn adolygu sut mae ein dull newydd o ymdrin â pherfformiad a datblygiad staff wedi gweithio dros y flwyddyn ddiwethaf.

Datblygu ac ymgorffori ffyrdd newydd o weithio yn ystod ac ar ôl Covid-19
Gan wrando ar farn staff a gweithio'n agos gyda'n hundeb llafur, byddwn yn treialu trefniadau dychwelyd yn rhannol i'r swyddfa ac yn ystyried beth allai ein ffyrdd newydd o weithio fod, gan arbrofi i roi cynnig ar wahanol ddulliau cyn ystyried newidiadau i bolisïau AD a chyfleusterau.

Gweithredu systemau cyllid ac AD newydd
Byddwn yn gweithredu'r systemau cyllid ac AD newydd, gan alluogi ein swyddogaethau cyllid, caffael ac AD i weithredu'n effeithlon ac yn effeithiol, ac i staff gael mynediad at fodiwlau AD hunanwasanaeth dwyieithog.

3.5. Blaenoriaeth 5: Cyrhaeddiad – cysylltu, ymgysylltu a chyfathrebu'n effeithiol gyda'n holl gynulleidfaoedd

Adeiladu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a'r system gymwysterau
Byddwn yn cyflwyno ein Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu 2021-22, gan wella sut rydym yn teilwra negeseuon i wahanol gynulleidfaoedd. Byddwn yn adolygu ac yn monitro ein heffeithiolrwydd. Byddwn yn gweithio gyda'n Grŵp Cynghori Dysgwyr i sicrhau bod llais dysgwyr yn ein helpu i wella sut rydym yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu. Byddwn yn datblygu ein naratif sefydliadol i egluro ein rôl yn y system yn well ac yn adolygu cywair ein llais. Byddwn yn parhau i gynllunio gweithgareddau ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid yn rheolaidd ac yn rheoli ymholiadau yn effeithiol. Byddwn hefyd yn adolygu ein Strategaeth Cyfathrebu Mewnol.

Canolbwyntio ar welliant parhaus i ddarparu gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol
Byddwn yn parhau i ddatblygu sianeli adborth effeithiol ar gyfer rhanddeiliaid. Byddwn yn sicrhau rheolaeth prosiect fewnol effeithiol o'n hymgyrchoedd, gan ymgorffori dull OASIS Gwasanaeth Cyfathrebu'r Llywodraeth o reoli cyfathrebiadau strategol. Byddwn yn gwella ein gwefan a phrosesau rheoli cynnwys cyfryngau cymdeithasol.

Creu strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu gynhwysfawr i reoli effaith COVID-19 a threfniadau asesu amgen yn 2021
Byddwn yn cyflawni ein strategaeth a'n cynllun ar gyfer cyfathrebu ar ddyfarnu yn haf 2021, gan weithio gyda CBAC a Llywodraeth Cymru, a chanolbwyntio ar sicrhau bod dysgwyr, rhieni a'r proffesiwn addysgu yn deall y trefniadau a pham eu bod ar waith.

Datblygu dull wedi'i dargedu ac un sy'n canolbwyntio ar bobl wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid
Byddwn yn gweithredu ein strategaeth ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan ganolbwyntio ar sicrhau bod gan wahanol grwpiau ddulliau effeithiol o gael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt a darparu adborth rheolaidd i ni. Byddwn yn ymgysylltu ac yn rheoli ein grwpiau rhanddeiliaid i sicrhau eu bod yn sianel effeithiol ar gyfer deialog dwy ffordd. Byddwn yn cynnal ein Fforwm Cyrff Dyfarnu a Chynhadledd Swyddogion Arholiadau.

Gwella a datblygu'r strategaeth cyfryngau cymdeithasol a'r wefan
Byddwn yn gweithredu strategaeth cyfryngau cymdeithasol newydd gan ddefnyddio data a mewnwelediad, ac yn monitro ein heffeithiolrwydd. Byddwn yn gwella trefniadau llywio ein gwefan, ac yn gweithredu prosesau rheoli cynnwys a hygyrchedd cadarn. Byddwn hefyd yn treialu'r defnydd o Instagram.

Cyfathrebu ac ymgysylltu mewn perthynas â blaenoriaethau diwygio
Bydd ein hymgyrchoedd i gefnogi ein diwygiadau yn canolbwyntio ar sicrhau bod canolfannau'n barod a bod rhanddeiliaid yn deall y newidiadau a'r rhesymau drostynt. Byddwn yn cefnogi'r prosiect Cymwys ar gyfer y Dyfodol, lle bydd ffocws allweddol ar sicrhau a chydlynu mewnbynnau effeithiol gan ystod ehangach o randdeiliaid i lywio ein penderfyniadau. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu â dysgwyr, ymarferwyr, academyddion, llywodraeth genedlaethol a lleol, prifysgolion a chyflogwyr. Byddwn hefyd yn cefnogi diwygiadau mewn Adeiladu, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Peirianneg, Technoleg Ddigidol a'r Fagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru newydd. Byddwn yn egluro ein defnydd o grantiau i gefnogi argaeledd cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyfathrebu ac ymgysylltu mewn perthynas â blaenoriaethau adolygu
Byddwn yn egluro ein hymchwil gyhoeddedig i gefnogi ein hadolygiadau. Ffocws allweddol fydd ein hadolygiadau sector Cam 2 ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a'n hadolygiad o gymwysterau yn y sector Teithio, Twristiaeth, Arlwyo a Lletygarwch.

4. Cyllid a gwariant arfaethedig 2021-22

Ariennir Cymwysterau Cymru yn bennaf gan Lywodraeth Cymru. Y nawdd craidd sydd wedi ei ddyrannu i ni ar gyfer 2021-22 yw £8.067 miliwn; mae £200,000 arall yn cael ei ddyrannu i ni ar gyfer ariannu'r cymhwyster 'Cymraeg i Oedolion', ac mae £1.35 miliwn arall yn cael ei ddyrannu i ni ar gyfer ariannu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'n prosiect 'Cymwys ar gyfer y Dyfodol'. Rydym hefyd yn bwriadu creu incwm o ryw £41,000 trwy ddarparu gwasanaethau cymorth TG i ddau gorff arall a noddir gan Lywodraeth Cymru ac, ers 1 Ebrill 2021, mae gennym arian wrth gefn y gellir ei ddefnyddio o tua £234,000 ar ein cyfriflen.

Mae gennym Gynllun Cyllid Tymor Canolig (a ddiweddarwyd ddiwethaf ym mis Mawrth 2021) ar gyfer y cyfnod 2021-22 i 2023-24. Mae hwn yn amcangyfrif ein costau yn ystod y cyfnod hwn ac yn rhoi llinell sylfaenol ar gyfer trafodaethau cyllid gyda Llywodraeth Cymru.

Ceir crynodeb o'n cyllideb ar gyfer 2021-22 isod:

Maes	**2021-22 Cyllideb Graidd**	**2021-22 Cyllideb Cymwys ar gyfer y Dyfodol**	**2021-22 Cyfanswm y Gyllideb**
	£'000	**£'000**	**£'000**
CRAIDD:			
Cyflogau	5,309	814	6,123
Grantiau	640	50	690
Costau Rhaglenni	673	416	1,089
Costau Rhedeg	1,348	8	1,356
Rhaglen y Swyddog Cyfrifyddu	138	62	200
Gweithgareddau Craidd Cymwysterau Cymru	**8,108**	**1,350**	**9,458**
Grant Cymraeg i Oedolion	200	0	200
Cyfanswm	**8,308**	**1,350**	**9,658**
Cyllid			
Grant Craidd LlC			**8,067**
Grant Cymraeg i Oedolion			**200**
Cyllid Cymwys ar gyfer y Dyfodol			**1,350**
Incwm TG			**41**
Cyfanswm y Cyllid			**9,658**

Rydym wedi cael caniatâd gan Lywodraeth Cymru i ddefnyddio'r arian wrth gefn i dalu am unrhyw gostau a achoswyd wrth weithredu ein systemau cyllid ac Adnoddau Dynol newydd. Nid yw'r costau hyn wedi'u cynnwys eto yn y cyllidebau amcangyfrifol uchod gan eu bod yn cael eu cwblhau ar hyn o bryd, ond bydd y gronfa wrth gefn o £234,000 yn ddigonol i'w talu.

Mae'r diagram isod yn dangos ymhellach sut rydym yn bwriadu gwario ein cyllideb o £9.658 miliwn:



Bydd ein cynlluniau gwariant yn ddibynnol ar adolygiadau rheolaidd wrth i ni ystyried sut mae ein Cynllun Busnes yn cael ei gyflawni ac ymateb i effeithiau'r pandemig.